

Cymorth strategol i addoldai: ein hefffaith ddwy



Gall mynwentydd fod yn hafanau heddychlon i fyd natur ac i bobl. Llun: Caring for Gods Acre.

Rydyn ni wedi ariannu prosiectau arloesol a chydweithredol sy'n mynd i'r afael â heriau eang sy'n wynebu synagogau, eglwysi a chapeli drwy ein menter strategol Treftadaeth mewn Angen: Addoldai.

Ein nod oedd cynnig ariannu wedi'i dargedu i gyrff mantell a fyddai'n cael yr effaith ehangaf ar addoldai ar draws y DU. Mae'n [un o bedair menter strategol bresennol](#) a grëwyd fel rhan o'n strategaeth Treftadaeth 2033 sydd â'r nod o ymateb i faterion brys yn y sector, o ddiffyg sgiliau gweithlu a gwirfoddolwyr i anghenion atgyweirio cymhleth adeiladau rhestredig.

Ym mis Medi 2024, gwnaethom gyhoeddi y byddem yn buddsoddi o leiaf [£15miliwn](#) dros dair blynedd yn y prosiectau strategol hyn. Rydyn ni wedi rhagori ar hyn mewn dim ond dwy flynedd, gan ymrwymo ychydig dros £17m drwy wyth grant yn amrywio o gadwraeth hirdymor ar rannau mewnol eglwysi hanesyddol i ddod o hyd i ddyfodol newydd i gyn-addoldai.

[Mae'r rhain yn] brosiectau uchelgeisiol sydd â'r potensial i gael effaith gadarnhaol wirioneddol a pharhaol ar ddyfodol addoldai.

Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mynnwch gip ar y prosiectau diweddaraf sy'n sicrhau dyfodol treftadaeth grefyddol

Mae **Hafanau Heddwch**, dan arweiniad Caring for God's Acre, mewn partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru, yn derbyn grant datblygu o £325,252 i gynnal chwe phrosiect peilot gan gynnwys dros 50 o fynwentydd. Byddai grant cyflwyno posibl o £3.7m i gyflwyno'r cynllun llawn yn sicrhau bod treftadaeth adeiledig, cynefinoedd naturiol a hanes cymdeithasol y mynwentydd hyn yng Nghymru'n cael eu diogelu am genedlaethau i ddod.

Dyfarwydd dros £140,000 i **The Foundation for Jewish Heritage** i ddatblygu prosiect DU gyfan i gynnig cefnogaeth i synagog yn prosiectau adeiladu hwn



Synagog Middle Street yn Brighton. Llun: Foundation for Jewish Heritage.

Rydyn ni wedi dyfarnu bron i £550,000 mewn arian datblygu i **Natural England** ar gyfer ei brosiect Nature in Sacred Spaces, wrth baratoi ar gyfer grant cyflwyno posibl o £4.2m. Gan adeiladu ar lwyddiant a mewnwelediadau ei brosiect Bats in Churches a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol, bydd y cynllun pedair blynedd yn gweithio gyda thua 150 o adeiladau crefyddol ar draws Lloegr i ddarparu'r ymwybyddiaeth, yr adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen ar warcheidwaid i helpu eu hadeiladau a byd natur i ffynnu gyda'i gilydd.

Bu i ni gyhoeddi £4.68m yn flaenorol ar gyfer **Cynllun Grantiau Cadwraeth Eglwys Loegr**, sy'n cefnogi cadwraeth hirdymor gwydr lliw, paentiadau wal, clociau, clychau, paentiadau a henebion hanesyddol eglwysi. Mae **Development Trust Association Scotland** eisoes wedi cyflawni 18 mis o'i brosiect sy'n cefnogi cymunedau i ddod o hyd i ddyfodol newydd i gyn-addoldai.

Wedi'n llywio gan ddata, rydyn ni wedi newid ein dull o gefnogi addoldai

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Rydyn ni wedi bod yn annog y sector i archwilio partneriaethau, ffyrdd arloesol o weithio ac ymyriadau strategol i fynd i'r afael â'r heriau hynny'n rhagweithiol. Mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel, a hyd yma rydyn ni wedi cefnogi wyth prosiect uchelgeisiol sydd â'r potensial i gael effaith gadarnhaol wirioneddol a pharhaol ar ddyfodol addoldai a chefnogi ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol."

Ochr y
achub
miliwn



chol i
5

Capel Tabernacl, Abertawe.

Wedi'i seilio ar ymchwil i'r anghenion a'r heriau mewn gwahanol ardaloedd a gwledydd y DU, rydyn ni wedi targedu lleoliadau allweddol ac ailddatblygu arweiniad ac adnoddau i adnewyddu ein cefnogaeth i addoldai er mwyn gwneud ceisiadau cryf am ariannu.

Cael cefnogaeth ar gyfer eich addoldy

Rydyn ni eisiau tynnu adeiladau oddi ar gofrestrau 'mewn perygl' y DU, rhoi hwb i fioamrywiaeth, cefnogi'r gwirfoddolwyr sy'n gofalu am addoldai a helpu'r safleoedd hyn i gyrraedd eu potensial fel hybiau cymunedol a werthfawrogir.

Ni waeth beth yw'r grefydd, y ffydd neu'r enwad, gallwch wneud cais am ariannu gennym ni. Dechreuwch yn ein [hyb addoldai](#) i gael gwybod mwy am yr hyn rydyn ni'n ei gefnogi.

Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...



[Capel Tabernacl, Abertawe.](#)

[Trawsnewid Tabernacl ar gyfer y gymuned a diwylliant](#)